pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 1

Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2014 Rhif 401



**Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont yn cael ei hurddo i'r orsedd yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gâr – dan yr enw *Fal o Sling***

tud 3 Pobl a Phethe
tud 8 Sioe Tal-y-bont
tud 15 Y Gair Olaf
tud 16 Chwaraeon

# Diolch Howard!

Mae Sioe Tal-y-bont yn un o'r digwyddiadau hynny sy'n llwyddo i dynnu trigolion yr ardal ynghyd bob blwyddyn ac eleni eto fe gynhaliwyd sioe fywiog a llwyddiannus ar gaeau'r Llew Du gyda chystadlu brwd ym mhob rhan o'r cae. Mae'r atodiad lliw yn y rhifyn hwn o Bapur Pawb yn brawf o'r bwrlwm a welwyd ar y diwrnod ac o safon y cystadlu.



*Cadeirydd Pwyllgor y Sioe, Menna Morgan yn cyflwyno rhodd i Howard Ovens*

Llywyddion Anrhydeddus y sioe eleni oedd Howard Ovens a Halcyon Hinde o Frondirion, Tal-y-bont. Mae cysylltiad Howard â'r sioe yn ymestyn dros gyfnod o hanner can mlynedd. Yn fuan ar ôl ymgartrefu yn yr ardal hon ar ddechrau'r chwedegau, daeth yn aelod brwdfrydig o bwyllgor y sioe ac mae'r brwdfrydedd a'r ymroddiad hwnnw wedi parhau tan heddiw. Ym 1972 bu'n gadeirydd y Sioe ond yn ei rôl fel Trysorydd y mae'n fwyaf adnabyddus i'r rhan fwyaf ohonom. Bu'n drysorydd ffyddlon, gyda chymorth Halcyon, am gyfnod o bedair blynedd ar hugain a mawr yw'n dyled iddo am ei waith manwl a gofalus.

Mae cymaint yn sôn am y croeso arbennig a geir yn Sioe Tal-y-bont a taw dyna un o'r prif resymau paham bod pobl yn mwynhau dod yma bob blwyddyn. Heb os, mae hynny'n dweud y cyfan am ymdrechion, ymroddiad ac anian pobl yr ardal!

Hoffai'r pwyllgor a fu'n trefnu'r sioe ddiolch yn ddiffuant i'r holl wirfoddolwyr am fod mor barod i gynorthwyo gyda'r paratoadau a'r trefniadau eleni eto. Diolch hefyd i'r noddwyr a'r aelodau sy'n cyfrannu at y sioe, y beirniaid, y cystadleuwyr a'r ymwelwyr a ddaeth i'n cefnogi ar y diwrnod.

**Tŷ Mwd Malawi – tud 4**



## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| Golygydd Cyffredinol: | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com | (01970) 832560 |
| Tynnu lluniau: | Cysyllter â golygyddion y mis | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| Tal-y-bont: | Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont | 832592 |
| | Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont | 832438 |
| Maes-y-deri: | Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont | 832483 |
| Parsel Henllys: | Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont | 832498 |
| Bont-goch: | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | 832566 |
| Tre Taliesin: | Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin | 832230 |
| Tre'r-ddôl: | Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl | 832429 |
| | Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl | (01654) 781260 |
| Eglwysfach/Ffwrnais: | Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais | (01654) 781324 |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| Cadeirydd: | Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont | 832093 |
| Is-gadeirydd: | Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont | 832760 |
| Ysgrifennydd: | Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont | 832433 |
| Trysorydd: | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont | 832093 |
| Tanysgrifiadau: | Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont | 832448 |
| Hysbysebion: | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont | 832076 |
| Plygu'r Papur: | Gwenllïan Parry-Jones; Tegwen Jones | |
| Dosbarthwyr: | John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones | |

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# Llythyron

**Annwyl ddarllenwyr**

Hoffwn dynnu eich sylw at ddigwyddiad arbennig y mae Canolfan Morlan yn ei drefnu mewn cydweithrediad â Strategaeth 50+ Cyngor Sir Ceredigion.

Cynhelir y Ffair 50+ ar brynhawn Mercher, 1 Hydref rhwng 1.00 a 6.00 ac mae croeso mawr i unrhyw un dros 50 oed fynychu. Nid oes tâl mynediad a chewch baned a chacen am ddim hefyd!

Bydd yno amrywiaeth o stondinau yn cynnig gwybodaeth a chyngor ar amrediad eang o faterion perthnasol o ysgrifennu ewyllysiau i gyfleoedd hamdden, o gyngor ar dai i sut mae dod o hyd i'r fargen orau ar-lein, a llawer mwy! Nid ydym am i'r digwyddiad fod yn rhy ffurfiol fodd bynnag, felly bydd hefyd yn ddathliad ac yn gyfle i gymdeithasu, i wrando, i rannu ac i fwynhau y cyfan o dan yr un to, ac am ddim.

Mae'n digwydd fod yn Ddiwrnod Pobl Hŷn y DU hefyd ac yn Wythnos Positif am Oed Age Cymru (28 Medi-5 Hydref) felly mae'n gyfle arbennig i dynnu sylw ac i ddathlu'r cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud i'n cymunedau ac i ddathlu popeth sy'n bositif am heneiddio. Edrychwn ymlaen at eich croesawu yno

Hefyd, bydd cyflwyniad o ffotograffau yn dangos delweddau positif o bobl hŷn yn rhedeg yn ystod y digwyddiad. Os oes gennych ffotograffau addas y byddech yn hapus i ni eu defnyddio, e-bostiwch nhw i: morlan.aber@gmail.com (neu cysylltwch os am wybodaeth bellach).

Diolch
Yn gywir

Carol Jenkins (Rheolwr Morlan) a Gweneira Raw Rees (Cydlynydd Strategaeth 50+ y Cyngor Sir)
Morlan


**Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb**

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

**Hefyd:**
- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau** yn yr ardal
- **Ôl rifynnau'r papur**

Noddwyd y wefan hon gan: Anthony Motors Volkswagen

**papurpawb.com**


# Dyddiadur

**Medi**

**14** **Bethel** 2 Gweinidog
**Nasareth**
**Rehoboth** 10 Bugail (C)
**Eglwys Dewi Sant** 11 Cymun Bendigaid
**Capel Ty Nant** 2 Cwrdd Diolchgarwch (Miss Beti Griffiths)

**18** **Neuadd Goffa, Tal-y-bont** Sefydliad y Merched (Prynhawn yr Aelodau)

**21** **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu. (Zoe Glyn Jones)
**Nasareth**
**Rehoboth** 10 Rhidian Griffith
**Eglwys Dewi Sant** Dim gwasanaeth

**22** **Neuadd Goffa** 7.30 Merched y Wawr 'Mewn un Cornel' (Wil Griffiths)

**26** **Llew Gwyn, Tal-y-bont** 8.00 Clwb Nos Wener '3 Gog a Hwntw' (Tocynnau £5)

**27** **Neuadd Goffa, Tal-y-bont** 7.30, Sioe Ffasiynau (tocyn ar gael oddiwrth Liz Roberts 832336)

**28** **Bethel** 10 Gweinidog
**Nasareth**
**Rehoboth** 2 Parch Judith Morris
**Eglwys Dewi Sant** 11 Gwasanaeth Teuluol a Cymun Bendigaid

**Hydref**

**3** **Eglwys Dewi Sant** 6.30 Swper Cynhaeaf yn Neuadd Rhydypennau Croeso i bawb

**5** **Bethel** 5 Gweinidog
**Nasareth** Uno ym Methel
**Rehoboth** 5 Bugail (C)
**Eglwys Dewi Sant** 11 Gwasanaeth Diolchgarwch

**7** **Llanfach, Taliesin** 'Delweddau taith i Morocco' (Sefydliad y Merched)

**12** **Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu (Dafydd Iwan)
**Nasareth** Oedfa'r Ofalaeth
**Rehoboth** Oedfa'r Ofalaeth

**14** Cyfarfod Chwiorydd Rehoboth 'Castell Aberteifi' (Rhian Medi)

**Digwyddiadau yn yr Ystafell Haearn a'r Eglwys, Eglwysfach**
**Medi**

**12** Clwb Llyfrau, 2.00pm, trafodir "The Lights of Liverpool" gan Ruth Hamilton.

**12** DVD cerddorol 6.30pm, "Ten Years After"

**12** Cyngerdd Sirocco Winds yn yr Eglwys, 7.30pm, bydd y rhaglen yn cynnwys Handel, Ibert, Arnold a Greig.

**17** Dawnsio Albanaidd, 7.30pm

**27** Bore Coffi Mawr Gofal Cancr Macmillan, 10.30-12.00

**30** Tenis Bwrdd, 7.00pm Manylion cyswllt i ddefnyddio'r Ystafell Haearn: 01654 781250


**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**
- ***The Other Western Front: y Rhyfel Byd Cyntaf yng Ngheredigion*** (7.30, nos Fercher, 17 Medi). Cyflwyniad gwreiddiol a luniwyd gan Michael Freeman, Morlan, Côr Gobaith a Theatr Louche yn cynnwys straeon lleol, detholiadau o dribiwnlysoedd apêl a chaneuon perthnasol. Tocynnau: £5/£3.
- ***Ffair 50+*** (1.00-6.00, Mercher, 1 Hydref). Gwybodaeth a chyngor i bobl 50+. Cyfle hefyd i gymdeithasu, i wrando a rhannu, ac i fwynhau!

Manylion llawn ar wefan Morlan:
**www.morlan.org.uk**
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan


**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rebecca ac Arthur (gyda chymorth Helen a Ceri), gyda Ceri yn dylunio. Golygyddion mis Hydref fydd Helen (832760; a Ceri (stiwdio@ceri-talybont.com) ac aelod newydd o'n tîm golygyddol Rhian Nelmes. Croeso i Rhian. Ceri fydd yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 3 Hydref, a bydd y papur ar werth ar 10 Hydref.

pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 3

**Marwolaeth**
Wrth i'r papur fynd i'r wasg daeth y newyddion trist am farwolaeth Mr a Mrs Idris Jones, Llys Ynyr. Danfonwn ein cydymdeimlad at y teulu.

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau calonog i Eifion a Tara, Craig-y-delyn, Tal-y-bont, ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

**Gwellhad buan**
Dechrau mis Gorffennaf, cafodd Dafydd Williams, Penywern, Tal-y-bont ddamwain gas tra wrth ei waith yng nghoedwig Clarach. Aed ag ef i Ysbyty Bronglais ac yna i Ysbyty Athrofaol Caerdydd, lle derbyniodd driniaeth fawr. Erbyn hyn, y mae'n dda medru adrodd fod Dafydd gartref ac yn gwella'n raddol.

**Penblwydd Hapus**
Llongyfarchiadau cynnes iawn i Mrs Joan Dare, Bwlchrosser, Bont-goch ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar 6 Medi.

**Cartref newydd**
Croeso mawr i Gareth Richards a'i bartner Sarah a symudodd i fyw i Helyg Aur, Tre Taliesin, ddiwedd mis Awst. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yma.

**Dyweddio**
Llongyfarchiadau i Luned Gwyn, merch Fal a Gwyn Jenkins a Matthew Philips, Caerdydd ar eu dyweddiad ac hefyd i Dylan Hughes, Maesyderi a Sara Morgan, Penrhyncoch.

**Penblwydd**
Dymunwn yn dda i Julie Bradley, Maesyderi, Huw Rowlands, Erglodd a Pam Byrne, Tre'r Ddôl bu'n dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

**Penblwydd Priodas**
Cyfarchion penblwydd priodas aur hapus i Carol ac Evan Evans, Tynrhelyg, i Fal a Gwyn Jenkins ar eu priodas ruddem ac i Iwan a Helen Jones, Gellimanwydd ar eu priodas arian.

**Arholiadau**
Danfonwn ein llongyfarchiadau i ieuenctid yr ardal sydd wedi llwyddo mewn arholiadau ac sydd wedi cwblhau cyrsiau prifysgol yn ystod misoedd yr haf.
Dymuniadau gorau i chi gyd!

**Penblwydd**
Llongyfarchiadau mawr i Dafydd Parry sy'n dathlu penblwydd arbennig ar yr 22ain.

# Pobl a Phethe




## Diolch

Dymuna Trevor Evans a'r teulu ddiolch i Jenny Jenkins a Ken Southgate am eu rhodd caredig o £237 o Gronfa Goffa Stevan Southgate. Yma'n cyflwyno'r siec i Philip Johnson o Anabledd Tŷ Cwm, Caerfyrddin mae Tessa Evans, mam Trevor ar ran y teulu.

**Hogan o Sling**
Llongyfarchiadau mawr i Falyri Jenkins. Cafodd Fal ei hurddo i'r Wisg Werdd er anrhydedd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

**I bedwar ban**
Dymuniadau gorau i Dafydd Morgan, Maesnewydd, wrth iddo fentro i Borneo i wirfoddoli. Gobeithio y cawn glywed am ei anturiaethau yn fuan.

Hefyd Bon Voyage i Anna Davies, Maesyderi, sy'n teithio i Seland Newydd i weithio am gyfnod. Pob lwc i'r ddau ohonoch.

**Babi newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Russell ac Andrea Riding, Tre Taliesin, ar enedigaeth eu merch Millie ym mis Awst eleni, chwaer fach i Eva.

Hefyd llongyfarchiadau i David a Jessica Adams o Dre'r Ddol ar enedigaeth mab bach, Eric, brawd i Arthur.

**Dawnsio**
Llongyfarchiadau i Niambh O'Brian ar ei llwyddiant fel rhan o dîm dawnsio Hip Hop yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli ac i Lili a Miriam am gyrraedd y llwyfan gyda'r grŵp dawnsio iau. Cafodd Miriam y 3ydd wobr am ganu a llefaru yn Eisteddfod Llambed hefyd.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Dai Evans, Maesyderi ac i Tony Green, Pantglas wedi triniaeth yn yr ysbyty. Hefyd danfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Eric Roberts a gafodd driniaeth yn ysbyty Singleton ac sydd bellach yn ysbyty Bronglais.

**Swydd newydd**
Bydd Steffan Nutting, Tŷ Hen yn brysur iawn o fis Medi ymlaen gan iddo sicrhau cytundebau dysgu yn Ysgol Gymraeg, Aberystwyth ac yn Ysgol Rhydypennau, pob lwc i ti.

**Llwyddiant swyddi newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Mrs Rose Jones sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ei chais i fod yn Swyddog Cymorth ac Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen yn Sir Gaerfyrddin am ddau dymor.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Llio Rhys hefyd am gytuno i fod yn athrawes ar ddosbarth y Cyfnod Sylfaen tan fydd Mrs Jones yn dychwelyd.
Dymunwn y gorau i'r ddwy yn ei swyddi newydd.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Gareth Pritchard, Llew Gwyn a Keith Pritchard, Caerdova ar golli eu tad yn ystod mis Mehefin.
Hefyd i Jano Evans a'r teulu, Maesyderi ar golli ei brawd Ralph Davies o Dre'r Ddol.
Bu farw Dafydd Rhagfyr , gynt o Morlais House yn ddiweddar.
Danfonwn ein cydymdeimlad i deuluoedd Edna Evans, Maesyderi, a Rosie Evans bu farw'n ddiweddar.

Hefyd cydymdeimlwn â theulu Llewelyn Hennighan, Maes Clettwr, Tre'r Ddol ac hefyd i deulu Ralph Davies o Dre'r Ddol.

Cydymdeimlwn â David Jones Berthlwyd sydd wedi colli dwy fodryb ac ewyrthr.

**Arddangosfa Celf a Chrefft:**
Diolch i bawb a gefnogodd yr arddangosfa ddiweddar yn Eglwys Sant Mihangel, fe godwyd £850 i goffrau's eglwys.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i mamgu a dadcu, sef Maldwyn a Margaret Jones, Penlonlas wedi genedigaeth Lloyd Ifan Morgan, mab i Rhian a Clive Morgan.
Hefyd croeso mawr i Cai Lloyd Williams, mab i Rhodri Lloyd Williams, Moelgolomen a'i gymar Sarah a brawd bach i Elen Ariana.
Dychwelodd Catrin a Darren a'r efeilliaid o Gaerdydd at rieni Catrin, Aeron ac Aileen Maesmeillion a bedyddiwyd y plantos yn Capel Bethel yn ystod mis Awst.



pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 4



Cyng Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor Sir yn cyfarfod y dirprwyaeth o bobl ifanc o dref Yosano yn Siapan, ynghyd a'u maer, a ddaeth i aros efo teuluoedd ar ymweliad cyfnewid i ardal Aberystwyth yn ddiweddar. Sefydlwyd yr ymweliadau yma er cof am Frank Evans, milwr o Lanwnen a fu'n carcharor rhyfel yn Siapan, ac a gladdwyd ym mynwent Tal-y-bont. Codwyd carreg coffa iddo yn Yosano a plannwyd coeden ceirioes er cof amdano. Mae pobl y dref a phobl Aberystwyth yn trefnu ymweliadau diwylliannol rheolaidd er mwyn sicrhau delfryd Frank Evans o hyrwyddo heddwch yn y byd. Dyma gyfieithiad o ddyfyniad o'i eiddo: "Ystyriwch ein blodau, sy'n hardd mewn bywyd a marwolaeth. Peidiwch byth eto a gadael i fodau dynol farw mewn holocost, ond yn hytrach, gadewch i ni gyd fyw a marw'n naturiol mewn heddwch perffaith am byth bythoedd".

## Tŷ Mwd Malawi



Cynhaliwyd dathliad swyddogol Tŷ Mwd Malawi ar dir Ysgol Tal-y-bont yn ddiweddar. Adeiladwyd y tŷ to gwellt arbennig yma i dynnu sylw'r cysylltiadau rhwng yr ysgol ag Ysgol Nkope Hill yn Malawi. Cynlluniwyd y tŷ hardd gan Gyles Morris o Naturebase ger Cilcennin gyda chymorth John Cunningham, Eco Lywodraethwr ynghyd a'r staff, plant a rieni. Hoffai'r Pennaeth, Hefin Jones a Rose Jones, Cydlynydd Ysgolion Eco ddiolch i bawb a gefnogodd y fenter hon, gan gynnwys Cronfa Leri, Ford Gron Aberystwyth, Jewson, IBERS, Cambrian Fencing, Antony Foulkes, Ffenestri IMEJ a'r Gymdeithas Rieni Athrawon.



## Silwair gorau trwy Gymru

Bu Dilwyn, Marion, Rhydian a Elgan Evans Tynant yn derbyn Tlws Coffa Raymond Jones oddiwrth llywydd Sioe Frenhinol Cymru, Rhian Duggan a'i gŵr John Duggan yn ystod y sioe nôl ym mis Gorffennaf. Enillon nhw'r wobr am y silwair gorau trwy Gymru yn adran y byrnau mawr. Hefyd yn y llun mae Kate Collet (yn cynrychiolu noddwyr y gystadlaeaeth)

## Ysgol Llangynfelyn



Arddangosfa Dylan Thomas



Trip Ysgol



Mabolgampau



Diwrnod Cuddfannau a Phicnic

pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 5

# Ysgol Llangynfelyn

## Croeso a Ffarwelio

Croesawn Amber Lewis atom i'r Dosbarth Derbyn. Gobeithio ei bydd hi'n hapus iawn gyda ni yma yn Ysgol Llangynfelyn. Ffarweliwyd a'n disgyblion Blwyddyn 6 ar ddiwedd y tymor. Dymunwn bob hwyl i Milly, Mabli a Zeb yn Ysgol Penglais. Ffarweliwyd hefyd â Luke Jones sydd wedi gorffen ei gyfnod o brofiad gwaith gyda ni. Dymunwn pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

## Arddangosfa Dylan Thomas

Os ewch chi i'r Llyfrgell Genedlaethol cyn Rhagfyr 20fed gallwch weld bortread arbennig o Dylan Thomas sydd wedi'i wneud allan o gannoedd o hunluniau. Hunluniau ydynt o fechgyn a dynion o'r enw Dylan. Os edrychwch yn ofalus gallwch weld hunlun Dylan Kerridge. Gwahoddwyd ein Dylan ni a'u deulu i agoriad swyddogol yr arddangosfa. Da iawn ti Dylan!

## Trip Ysgol

Aeth pawb o'r ysgol ar ein trip blynyddol oedd eleni i Quackers. Mwynhaodd bawb yn y lle chwarae ac ar y go-cartiaid tu allan. Diolchwn yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu cyfraniad hael tuag at gost y bws.

## Mabolgampau

Ar brynhawn braf iawn cafwyd cystadlu brwd yn ein mabolgampau. Ar ôl amryw o gystadlaethau unigol a thîm rhwng Cletwr a Mochno, Cletwr oedd yn fuddugol. Cyflwynwyd y cwpan i gapteiniaid Cletwr sef Milly a Mabli. Zeb oedd capten Mochno. Cyflwynwyd tariannau hefyd i:

Pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen (Merched) – Ava Lewis
Pwyntiau uchaf yn y Cyfnod Sylfaen (Bechgyn) – Iwan Foster Leslie
Pwyntiau uchaf yng Nghyfnod Allweddol 2 (Merched) – Mabli Rose
Pwyntiau uchaf yng Nghyfnod Allweddol 2 (Bechgyn) – Elijah Girardi

## Barbeciw

Cynhaliwyd ein barbeciw yn ystod wythnos olaf y tymor. Roedd hi'n noson hyfryd a braf iawn oedd gweld cymaint o blant, rhieni, cymdogion a ffrindiau'r ysgol yno. Cyflwynwyd rhodd fechan i ddisgyblion Blwyddyn 6 a chanodd y plant eraill cân ffarwelio iddynt. Derbyniodd yr ysgol nawdd eleni o'r Ymddiriedolaeth Fwyd a Thir y Canolbarth gan fod y plant wedi helpu gyda'r paratoadau ar gyfer y barbeciw. Dyluniodd y plant y tocynnau a'r bwydlenni. Ar y noson bu'r plant hŷn yn gweini'r diodydd ac yn gwneud moctêls blasus iawn. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r barbeciw.

## Diwrnod Cuddfannau a Phicnic

I orffen y tymor, penderfynodd y plant gael prynhawn o adeiladu cuddfannau. Daeth rhai plant â phebyll eu hunain ac adeiladodd eraill cuddfannau gan ddefnyddio bambŵ a charthenni. Cafwyd amser prysur a hwyliog iawn gyda phawb yn mwynhau picnic a hufen-ia ar ddiwedd y prynhawn.

# Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf

## – Gwyn Jenkins

Yn ystod yr haf bydd papurau newyddion a chylchgronau'n neilltuo tudalennau lawer i argymell llyfrau i'w darllen ar wyliau. Ond er mai ym mis Gorffennaf y cyhoeddwyd llyfr diweddaraf Gwyn Jenkins, Maesgwyn, nid cyfrol i'w chludo i'r traeth mohoni. Yn y lle cyntaf mae'n glamp o lyfr trwchus – dros 220 tudalen – ac yn ail nid yw'r cynnwys yn addas i ddarllenwyr sy'n chwilio am ddeunydd ysgafn wrth ymlacio. Ond, a'r haf yn tynnu at ei derfyn, mae'n dda gwybod y medrwn, ar nosweithiau hydrefol, droi at gyfrol swmpus i'n goleuo am un o'r trychinebau mwyaf yn hanes y byd ac un sydd hefyd yn rhan annatod o'n cof ni fel cenedl. Wedi'r cyfan, pwy sydd heb glywed am hanes Hedd Wyn a'r Gadair Ddu? Pwy ohonom nad yw'n ymwybodol o enwau megis Passchendaele, Ypres, Mametz a'r Somme? A phwy sydd heb weld y rhestrau hir o enwau ar gofgolofnau a chofadeiladau ar hyd a lled Cymru i goffau'r bobl ifanc syrthiodd ar faes y gad?




Mae'n anodd dirnad pam ein bod wedi gorfod aros cyhyd cyn i hanesydd fynd ati i lunio llyfr safonol ar un o benodau mwyaf dirdynnol hanes Cymru. O'r cychwyn cyntaf, y bwriad oedd ymdrin â chyflafan fyd-eang o bersbectif Cymraeg a Chymreig gan roi sylw dyladwy nid yn unig i'r agweddau milwrol a gwleidyddol, ond hefyd i effaith y rhyfel ar y gymdeithas adref yng Nghymru. Camp fawr yr awdur yw iddo blethu cronoleg digwyddiadau'r rhyfel gydag elfennau thematig yr hanes, a hynny trwy weu profiadau personol dros 170 o unigolion i'w naratif.



Mae rhai profiadau o ddiddordeb arbennig i ddarllenwyr *Papur Pawb*. Er enghraifft, atgofion Caledfryn Evans, Maesyderi (tad-cu Nia a Carwyn Evans), John M. Davies, Free Trade Hall, Taliesin (tad Eiriona Metcalfe), a Huw T. Edwards (taid Eleri Huws, Pengwern gynt). Hefyd cawn gip ar gynnwys rhai o lythyrau Rachel Davies, Llandysul at ei mab, David Davies (mam-gu a thad Enid Gruffudd, Bryngwyn). Ond nid naratif caboledig a bywiog y gwaith yn unig sy'n haeddu clod gan fod y gyfrol hefyd yn cynnwys nifer dda o luniau trawiadol sy'n cyfoethogi ymhellach ein dealltwriaeth o natur enbyd y rhyfel hwn. Mae diwyg y llyfr hefyd yn orchestol, diolch i waith dylunio crefftus Elgan Griffiths, Taliesin.

Dirdynnol yw darllen manylion y trychinebau ddaeth i ran teuluoedd Cymru yn ystod y rhyfel; ond, fel y dywedodd Simon Weston yn dilyn seremoni dadorchuddio'r gofeb i filwyr Cymru yn Fflandrys yn ddiweddar, y tristwch pennaf yw'r ffaith nad ydym eto wedi dysgu gwersi'r gyflafan. Mae'r llyfr hwn yn tystio i'r hunllef a brofwyd gan lawer o Gymry 'mewn oes mor ddreng' ac yn goffâd teilwng iawn i bob un a ddioddefodd.

*Gwilym Huws*

**Y RHYFEL BYD CYNTAF**

## COFIO a MYFYRIO

Yn dilyn ein diwrnodau cywain llwyddiannus, cynhelir arddangosfeydd o'r creiriau, lluniau a dogfennau a ddaeth i law, yn y lleoliadau canlynol. Bydd cyflwyniad dramatig hefyd (mewn 2 ran) i gydfynd â'r arddangosfeydd, gydag actorion lleol.

**ARDDANGOSFA** 10 – 11 Tachwedd: Neuadd Goffa Tal-y-bont

**Y DDRAMA** 12 Tachwedd: Capel Bethel, Tal-y-bont

Manylion pellach gan John Leeding 01970 832672

pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 6



## Trip Ysgol Sul Bethel

Am hanner awr wedi wyth fore Sadwrn, 30 Awst cychwynnodd y bws a gariai plant, rhieni ac aelodau Ysgol Sul Bethel ar y daith i Folly Farm yn sir Benfro. Roedd cyffro mawr ar y bws a'r plant yn edrych ymlaen i gyrraedd pen y daith.

Roedd y tywydd yn berffaith i fynd o amgylch y fferm yn gweld yr holl anifeiliaid bach a mawr gan gynnwys y teulu o lewod oedd newydd ymgartrefu yno. Cafwyd hwyl yn yr ardaloedd chwarae, ar yr olwyn fawr ac yn y ffair dan do.

Mwynhawyd hufen ia, trwy garedigrwydd Mr Gwilym Jenkins ac wrth gwrs roedd yn rhaid stopio yn Aberaeron ar y ffordd adre am sglodion. Barn unfrydol y plant a'r oedolion oedd i'r trip fod yn llwyddiant ysgubol.

**Y LLEW GWYN**
**TAL-Y-BONT**
Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.
**Ar agor bob dydd**
Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00
Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50
Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50
**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**
**(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)**
Ystafelloedd ar gael
**01970 832245**
**whitelionhotel1@btconnect.com**

**Ioga**
Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
**Sue Jones-Davies**
**01970 624658**

**Afiaith**
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

STORFA
CARTREF a BUSNES
**Storio Hyblyg Diogel**
*Ystafelloedd storio i siwtio eich gofynion*
TCC a Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi Gynhesu
*Ar Werth*
*Bocsys, Bwrlwm Lapio a deunydd pacio*
Ymwelwch â'r siop arlein
www.boxshopsupplies.co.uk
MID WALES STORAGE
STORFA CANOLBARTH CYMRU
Ffon—01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, Powys, SY20 8BQ





## Sefydliad y Merched Taliesin

Daeth y tymor i fynd ar ein taith flynyddol unwaith eto. Felly, ar ddydd Sadwrn 19 Gorffennaf, aeth llond bws ohonom i'r Ysgwrn, Trawsfynydd - yn union gan mlynedd ers dechrau'r rhyfel byd cyntaf, a'r Ysgwrn wedi aros yn union r'un fath dros y blynyddoedd.

Cawsom gwmni difyr nai Hedd Wyn, Gerald, a Naomi Jones, Swyddog o'r Parc Cenedlaethol, a esboniodd bywyd y fferm, y teulu a'r bardd, ynghyd â disgrifiad manwl o ystyr y cerfiadau cywrain ar y Gadair Ddu.

Mwynhaodd pawb yr ymweliad yn fawr iawn. Yna aethpwyd ymlaen i Brondanw, Llanfrothen, sef cartref y diweddar Clough Williams-Ellis. Yno cawsom baned cyn cael ein tywys o gwmpas y gerddi gan y garddwr a esboniodd gynllun yr ardd ynghyd â'r planhigion a'u gofal blynyddol.

O fan hyn, teithion ni ar hyd yr arfordir godidog i Bwllheli a mwynhau amser yn ymweld â'r siopau cyn dychwelyd i Cross Foxes am swper blasus i ddiweddu'r noson. Diwrnod arbennig a phawb wedi'u plesio gydag amrywiaeth y daith.

Noson yr aelodau bu hi nos Fawrth yr ail o Fedi, gyda'r aelodau'n cyflwyno'i hoff rysáit. Noson hyfryd a phawb yn cael y cyfle i flasu bwydydd a rhannu ryseitiau.

Bydd prysurdeb yn ystod mis Medi yn paratoi am y Sioe Ffasiynau mawr fydd yn Neuadd Tal-y-bont nos Sadwrn 27 Medi. Mae'r tocynnau wedi'u gwerthu bron i gyd, ond nad ydych chi wedi cael eich tocyn chi, ffoniwch Meinir Fleming ar 01970 832572 - mae'n argoeli'n noson arbennig a dda, llawn hwyl a bargeinion di ri i bawb!

*Beti Davies*

*Rhian*
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553


K Hughes
**Plymio a Gwresogi**
**Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi**
**Gwasanaeth Boeler Olew**
01970 832129
07761 917235

argraffu da
*am bris da*



y Lolfa
holwch Paul am bris ar **paul@ylolfa.com**
01970 832 304 **www.ylolfa.com**

# Nofel Newydd Martin




Mae Martin Davis, Is-y-coed, Taliesin, wedi cyhoeddi tair nofel i oedolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn ei nofel ddiweddaraf, *Broc Rhyfel,* mae'n mynd â ni 'nôl dau ddegawd i'r cyfnod pan rwygwyd yr hen Iwgoslafia'n ddarnau mân mewn rhyfel ffyrnig. Mae'r prif gymeriadau'n cynnwys Cymro sydd wedi gwneud ei ffortiwn yn gwerthu arfau a merch ifanc o Sarajevo sy'n cael ei thwyllo i deithio i'r Gorllewin a'i dal yn gaeth gan fasnachwyr y diwydiant rhyw.

'Nofel dreiddgar a llawn cyffro' yw sylw un beirniad ar y nofel felly ewch allan i'w phrynu. Cyhoeddwyd Broc Rhyfel gan Y Lolfa, a'i bris yw £8.95.

# Cronfa Coffa Stevan Southgate

Ar 2 Awst cynhaliwyd cystadleuaethau dartiau a pwl blynyddol yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont, i godi arian ar gyfer Cronfa Coffa Stevan Southgate. Casglwyd £238 tuag at Tŷ Cwm, Caerfyrddin, un o gartrefi Leonard Cheshire ar gyfer yr anabl lle y mae Trevor Evans, Maesyderi yn byw ar hyn o bryd. Cyfranwyd hefyd £400 tuag at Ward Cancr Ysbyty Singleton, Abertawe. Dymuna Mr Bob Southgate a'r teulu ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac am y rhoddion tuag at y raffl. Diolch hefyd i Mr a Mrs Gareth Pritchard, Gwesty Llew Gwyn am y croeso.



Yr enillwyr oedd:

**Dartiau**
Grŵp A (profiadol)
1 – Anthony Thomas
2 – David Edwards
3 – Richard Jones
4 – Wesley Pursel

**Dartiau**
Grŵp B (di-brofiad)
1 – Sion Southgate
2 – Carl Jenkins
3 – Eiryl Southgate
4 – Ffion Southgate

**Pŵl**
1 – Keith Pritchard
2 – Barri Southgate

# Elin Jones AC – O'r Cynulliad



Dros haf eleni, bu nifer o gyfleon i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Er gwaetha'r ffaith fod yma yng Ngheredigion un o'r 'pentrefi diolchgar' na chollodd un o'i meibion– sef Llanfihangel y Creuddyn – prin yw'r teuluoedd na chafodd mo'u effeithio gan y gyflafan a gychwynodd gan mlynedd yn ôl.

Cymerais y cyfle i ymchwilio tipyn i'm hanes teuluol fy hun, gan ddarganfod toreth o lythyron gan frawd fy hen nain, Watkin Jones Davies o Goedparc, Silian, ger Llambed.

Mae'n stori drist. Roedd Watkin, neu Wat, yn un o ddau frawd a deg chwaer. Gan mai ef oedd yr unig fachgen ar ôl ar y ffarm, doedd dim rhaid iddo fynd i frwydro, ond penderfynodd ei dad y dylai ymrestru gyda'r Iwmyn, a chynigiodd geffylau er mwyn i'r fyddin ei gymryd. Ddychwelodd Wat byth i redeg y fferm deuluol; bu farw dridiau ar ôl y cadoediad, ar 14 Tachwedd 1918, o ganlyniad i glwyfau a dderbyniodd ym mrwydr Epehy ar y Somme ddeufis ynghynt.

Roedd yn ysgrifennu'n fynych at ei chwiorydd am ei brofiadau yn y rhyfel. Danfonodd gardiau o Cairo ac Alexandria, a son am ymweld â llefydd y clywodd amdanynt yn yr Ysgol Sul. Yn ei lythyron, crybwyllodd ddiflastod bywyd y fyddin, er hoffter o dderbyn parseli o gartre, ac am golli'r rhan fwyaf o'i blatŵn.


*Watkin Jones Davies, Coedparc, Silian, ar gefn ei geffyl*

Mae'r ffaith iddo ymladd mewn brwydrau yn Gaza a'r Dwyrain Canol yn naturiol yn gwneud i rywun feddwl am yr erchyllderau sy'n digwydd yno heddiw. Mae profiad Wat, enwau'r cannoedd sydd ar gofgolofnau ar hyd a lled y sir, a'r plac ym Mhrifysgol Aberystwyth i Hermann Ethé druan a erlidiwyd o Geredigion yn 1914, yn ein atgoffa pa mor fregus yw heddwch.

Bistro
Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON
JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SL

Garej Davmor
- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

*Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont*
01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

# Sioe Tal-y-bont

## Canlyniadau Lleol

**PABELL SIOE**

**Cynnyrch Fferm**
**Belen o wair dôl**
2. Ynyr Siencyn, Tan'rallt
3. Elfed Jones, Berthlwyd
**Cynnyrch Gardd**
**Sypyn o Domatos**
1. a 2. D.R.O. Jones, Berthlwyd
**Dau faro dros 12 modfedd**
3. D.R.O. Jones
**4 Ffa Ffrengig**
1. Anne a Ian Mitchel, Llangynfelyn
**Casgliad o Berlysiau**
1. a 2. Helen Hicks, Llangynfelyn
**3 Corbwmpen**
1. Ann a Ian Mitchel
2. Mai Leeding, Glannant, Taliesin

**Llysiau Lleol**
**4 Taten**
1. a 3. Helen Hicks
2. Ann a Ian Mitchell
**3 Coesyn Riwbob**
1. Helen Hicks
2. Mai Leeding
3. Elfed Jones
**4 Ffa Dringo**
1. Geraint Lewis, York House, Tre'r-ddôl
2. D.R.O. Jones
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
1. Ceris Williams, Penrhos
2. Claire Fowler, Bron-y-gân
3. Helen Hicks

**Ffrwythau**
**3 afal bwyta**
2. a 3. Mai Leeding
**3 afal coginio**
1. Geraint Lewis
2. Brian Davies, Rhos, Taliesin
**3 Peren fwyta**
1. Mai Leeding
2. D.E. Evans, Coed yr Eos, Taliesin
**3 Peren goginio**
1. Mai Leeding
**3 Eirinen**
2. Mai Leeding
**3 Eirinen ddu**
2. Geraint Lewis
3. Brian Davies
Cwpan yn rhoddedig gan Mr a Mrs Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran ffrwythau: Mai Leeding

**Blodau**
**4 Trilliw**
1. Billy Swanson, Dôl Pistyll
**6 math o flodau'r ardd**
1. Rhian Nelmes, Tre'r-ddôl
**Cynhwysydd o flodau blynyddol**
2. Mai Leeding
**Cactws**
2. Ann Ovens, Tan-y-cae
**Planhigyn tŷ – dail**
1. Mai Leeding
**Planhigyn tŷ – blodau**
1. Mai Leeding
2. Dilys Morgan, Alltgoch

**Ffiwsia**
2. Mai Leeding
**Gardd fach ar blat**
1. Ffion Hicks, Llangynfelyn
**Casgliad o flodau gwyllt**
1. a 2. Ffion Hicks
**Blodyn twll botwm**
1. Beti Wyn Davies, Rhos, Taliesin
**Tusw ysgwydd**
1. Beti Wyn Davies

**Gosod Blodau**
**Canrif o atgofion y Rhyfel Byd Cyntaf**
1. Beti Wyn Davies
**Nid aur yw popeth melyn**
1. Beti Wyn Davies
**Planed y ddaear**
2. Christine Gilbert, Tre'r-ddôl
**Y Storm**
1. Christine Gilbert
3. Beti Wyn Davies
**Gemau'r Gymanwlad yng Nglasgow**
1. Beti Wyn Davies
**Trefniant mewn bocs**
1. Beti Wyn Davies
**Trefniant un lliw**
3. Christine Gilbert
**Haf hudolus**
1. Helen Jones
2. Ffion Hicks
Enillwyd pump o gwpanau yn yr adran gosod blodau gan Beti Wyn Davies, ac un gan Helen Jones, Gellimanwydd
Enillydd cwpan coffa Mr John Owen Ellis am yr arddangosfa orau yn adrannau'r blodau a gosod blodau: Mai Leeding, Taliesin

**Coginio**
**Cacen Dundee**
2. Ceris Williams, Penrhos
3. Carol Davies, Taliesin
**4 Cacen gwpan**
2. Jo Fothergill, Minafon
**Cacen Ffrwythau**
2. Heulwen Astley, Y Gorlan
**Sbwng Victoria**
1. a 2. Susan Rowlands, Erglodd
3. Ceris Williams
**Cacen Lemwn**
2. Mai Leeding
**Sbwng Siocled**
1. Ceris Williams
**Bara Brith**
3. Janet Morgan, Moelgoch
**Torth Gartref**
1. Jane Bailey, Troedrhiwseiri, Bontgoch
**4 Sgon**
2. Medi James, Llannerch
3. Jane Bailey
**6 Pice ar y Maen**
1. Marion Evans, Tŷ Nant
2. a 3. Betsan Siencyn, Tan'rallt
**Pei Lemwn Meringue**
1. Marion Evans
2. a 3. Carol Davies
**6 Leicec**
3. Lois Jones, Gellimanwydd
**Fy hoff gacen**
2. David Dawson, 4 Birkenhead Street

**Fflan Sawrus**
1. Marion Evans
**Tarten ffrwythau**
1. a 2. Marion Evans
**4 Fflapjack**
1. Siwan Haf, Pantcoch
**Cacen i ddynion yn unig**
1. Owain Hammonds, Bontgoch
2. Wyn Benjamin, Dôl Pistyll
3. Geraint Lewis, Tre'r-ddôl
Dosbarth Arbennig 28, tocyn anrheg o'r Llew Du yn rhoddedig gan Owain Hammonds, Pennant, Bontgoch, a enillwyd gan Owain Hammonds

**Cyffeithiau**
**Marmaled**
3. Amanda Charlesworth, Dôl Pistyll
**Jam ffrwythau meddal**
2. Mai Leeding
**Jam ffrwythau gyda charreg**
1. Dilys Morgan
**Jeli ffrwythau**
1. a 2. S.E. Lewis, York House, Tre'r-ddôl
**Ceuled lemwn**
1. Janet Jones, Llwynglas
**Picl cymysg**
2. Janet Jones
**Jeli Mintis**
3. S.E. Lewis
**Cyffaith anarferol**
1. S.E. Lewis
3. Helen Hicks
**Tri chyffaith fel anrheg**
1. a 2. Helen Hicks
**Coleslaw**
1. a 2. Carol Davies, Taliesin
**Paté**
2. Carol Davies
3. Nick Bryan, Minafon
**Cordial**
2. S.E. Lewis
**Gwirod Ffrwythau**
1. Kailey Lewis, Tre'r-ddôl
Enillwyd Cwpan Nantgaredig am yr arddangosfa orau yn yr adran cyffeithiau gan S.E. Lewis, Tre'r-ddôl, a chwpan yn rhoddedig gan Mr a Mrs B. Jones, Llysterfyn am yr arddangosfa orau yn adran y gwin gan ei merch, Kailey Lewis
Dosbarth arbennig 33. Pedair eitem, coginio neu cyffeithiau yn defnyddio lemwn: Mrs Mai Leeding yn ennill tlws arbennig yn rhoddedig gan Dr Menna Morgan

**Mêl**
**Mêl gronynnog**
3. Ann Ovens, Tan-y-cae

**Cynnyrch Llaethdy**
**4 wy brown**
1. Margaret Jenkins, Tynygraig
**4 wy arlliwedig**
3. Tomos Jac Benjamin, Dôl Pistyll
**4 wy hwyaden**
2. Ffion Hicks

**Gwaith Llaw**
**Sampler**
3. Betty Jenkins, Pengwern
**Croes Bwyth**
2. Dilys Morgan, Alltgoch
**Clustog**
1. Betty Jenkins
2. Dilys Morgan
**Rhodd i faban**
3. Helen Jones, Gellimanwydd



**Gwaith cynfas**
1. a 3. Dilys Morgan
2. Betty Jenkins
**Addurn Nadolig**
1. Dilys Morgan
2. a 3. Betty Jenkins
**Gwaith cyfrif**
1. a 3. Betty Jenkins
2. Dilys Morgan
**Cerdyn Cyfarch**
1. a 2. Dilys Morgan
3. Betty Jenkins
Enillwyd y cwpan am yr arddangosfa orau gan Betty Jenkins, a'r cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau gan Dilys Morgan

**Crefftau**
**Arwydd tŷ**
3. Jo Fothergill, Minafon
**Eitem o waith coed**
1. Michael Deaville, Dôl Pistyll
**Crochenwaith**
1. a 2. Jo Fothergill
**Paentiad**
2. S. Haynes
Michael Deaville enillodd y cwpan am yr arddangosfa orau yn y crefftau, a Jo Fothergill gafodd y cwpan am y nifer uchaf o bwyntiau.

**Ffotograffiaeth**
**Fy nghartref**
1. Beti Wyn Davies
3. Becca Fflur, Dôl Pistyll
**Prydferthwch Natur**
1. Beti Wyn Davies
2. Rhian Nelmes
**Person wrth ei waith**
1. Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail
2. Beti Wyn Davies
**Un dyn a'i gi**
2. Beti Wyn Davies
**Adeilad hanesyddol**
1. a 3. Owain Hammonds, Pennant
Beti Wyn Davies enillodd y cwpan am yr arddangosfa orau yn yr adran ffotograffiaeth

**Plant cynradd**
**Dosbarth derbyn**
2. Summer Glacier
3. Maisie Owen
**Dosbarth Derbyn**
2. Tyler Murray
3. Erica James
**Blwyddyn 1**
1. Noah Berry, Ysgol Llangynfelyn
3. Dylan Kerridge, Ysgol Llangynfelyn

pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 9

**Blwyddyn 2**
3. Efa Saunders Jones
**Blwyddyn 3 a 4**
3. Catrin Jones
**Blwyddyn 5 a 6**
3. Heledd Davies

**Plant Uwchradd**
**Pasta**
1. Ffion Nelmes
**Fy hoff swper**
1. Ffion Nelmes
**4 Fflapjack**
1. a 3. Charlotte Jones
2. Ffion Nelmes
**Ffotograffiaeth**
1. a 3. Ffion Nelmes
**Eitem wedi ei wneud yn yr ysgol**
1. Ffion Nelmes
3. Betsan Siencyn, Tan'rallt
Ffion Nelmes enillodd y ddau gwpan yn yr adran, un am yr arddangosfa orau a'r llall am y nifer uchaf o bwyntiau.

**Clwb Ffermwyr Ifainc**
**4 Sgon ffrwythau**
2. Betsan Siencyn
**Fy hoff bwdin**
1. Betsan Siencyn
**Gwaith Coed**
1. a 2. Gareth Jenkins, Ynyseidiol
Enillwyd y cwpan am yr arddangosfa orau yn adran y Ffermwyr Ifainc gan Gareth Jenkins.

**GWARTHEG**
**DA DUON CYMREIG**
**Tarw wedi ei eni cyn 1/3/2012**
1. Huw Jones, Llety Cynnes
2. Teulu Cerrigcaranau, Tal-y-bont
**Buwch a aned cyn 1/3/2011**
1. Huw Jones
2. Trefor Jones, Cwmcae
**Heffer a anwyd rhwng 1/3/11 a 29/2/12**
1. Teulu Cerrigcaranau
**Heffer a anwyd rhwng 1/3/12 a 28/2/2013**
2. Trefor Jones
**Pâr**
3. Huw Jones
**Pencampwr:** Huw Jones
**Tarw Gorau:** cilwobr - Huw Jones
**Y Fuwch orau:** Huw Jones

**Buwch a llo mewn Lloc**
1. Teulu Cerrigcaranau
3. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont

**GWARTHEG HOLSTEIN**
**Heffer heb godi dannedd:**
1. G & R Watkin, Henllys, Dôl-y-bont
2. Teulu Cerrigcaranau
**Heffer Gyflo**
1. a 2. Teulu Cerrigcaranau
3. G & R Watkin
**Buwch Sych**
1. a 2. Teulu Cerrigcaranau
3. G & R Watkin
**Heffer yn Llaetha**
1. a 3. G & R Watkin
2. Teulu Cerigcaranau
**Buwch yn Llaetha**
1. a 3. Teulu Cerrigcaranau
2. G & R Watkin
**Pâr**
1. a 3. Teulu Cerrigcaranau
2. G & R Watkin
**Pencampwr:** Teulu Cerrigcaranau
**Cilwobr**: G & R Watkin

**BIFF**
**Bustach heb godi dannedd**
1. Huw Jones

**Tywysydd Ifanc dan 11**
1. Carys Watkin, Henllys

**DEFAID**
**Defaid Mynydd**
**Hwrdd 2 Flwydd +**
1. a 2. Teulu Tyngraig, Tal-y-bont
3. Teulu Tanrallt, Tal-y-bont
**Hwrdd Blwydd**
1. a 2. Teulu Tyngraig
3. Teulu Tanrallt
**Oen hwrdd**
1. a 2. Teulu Tyngraig
3. Teulu Tanrallt
**2 Ddafad 2 flwydd**
1. Teulu Tyngraig
2. Teulu Tanrallt
3. Teulu Tynant
**2 Ddafad Flwydd**
1. Teulu Tyngraig
2. Steffan a Garmon Nutting, Tŷ Hen Henllys, Tal-y-bont
3. Teulu Tanrallt
**2 oen Fenyw**
1. a 2. Teulu Tyngraig
**Grŵp**
1. Teulu Tyngraig
2. Teulu Tanrallt
3. Steffan a Garmon Nutting
**Pâr o Hyrddod**
1. Teulu Tyngraig
2. Steffan a Garmon Nutting
**Pencampwr a chilwobr:** Teulu Tyngraig

**UNRHYW FRID MYNYDD ARALL**
**Hwrdd**
1. Gwion Evans, Tanllan, Llancynfelyn
3. Ffion Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont
**Oen Hwrdd**
2. Gwion Evans
**Dafad**
2. Gwion Evans
**Dafad Flwydd**
1. a 3. Gwion Evans
**Oen Fenyw**
1. Gwion Evans
**Grŵp**
1. Gwion Evans

**SUFFOLK**
**Oen Hwrdd**
1. Gwion Evans

**JACOB**
**Hwrdd**
1. Huw Davies, Llety-ifan-hen, Bontgoch
**Oen Hwrdd**
2. Huw Davies
**Dafad**
1. a 2. Huw Davies
**Dafad Flwydd**
1. a 2. Huw Davies
**Oen Fenyw**
2. Huw Davies

**CHAROLLAIS**
**Hwrdd**
3. Ffion Jones

**TEXEL**
**Hwrdd**
2. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont
**Oen Hwrdd**
2. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan
**Dafad 2 Flwydd**
2. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan
**Dafad Flwydd**
2. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan
**Oen Fenyw**
1. a 3. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan

**DORSET MOEL A CHORNIOG**
**Hwrdd**
1. a 3. Griffiths & Davies, Dolclettwr, Tre'r Ddôl
**Oen Hwrdd**
3. Griffiths & Davies
**Dafad Oedrannus**
1. Griffiths & Davies
**Oen Fenyw**
1. Griffiths & Davies
**Oen Fenyw heb ei thocio**
1. Griffiths & Davies
**Pencampwr:** Griffiths & Davies

**ZWARTBLES**
**Oen Hwrdd**
2. a 3. Susan Rowlands, Erglodd, Taliesin
**Dafad Flwydd**
2. Susan Rowlands

**BRIDIAU PUR ERAILL**
**Hwrdd**
2. Dylan, Lynwen ac Alaw Morgan
**Oen Hwrdd**
2. Susan Rowlands

**BRIDIAU PRIN**
**Oen Hwrdd**
1. Trefor Jones, Cwmcae, Llandre
**Dafad**
2. Trefor Jones
**Dafad Flwydd**
2. Trefor Jones
**Oen Fenyw**
1. Trefor Jones
**Grŵp:** Trefor Jones
**Pencampwr:** Trefor Jones

**ŴYN TEW**
**Dan 32 Kg**
1. Gwion Evans
**Ŵyn Mynydd**
1. Gwion Evans
2. a 3. Teulu Tyngraig

**CNEIFIO**
**Peiriant Agored**
3. Rhydian Evans, Tynant, Tal-y-bont
**Peiriant C.Ff.I.**
2. Dewi Jenkins,Tyngraig

**CŴN**
**Ci neu ast (6-12mis)**
3. Hollie Davies, 75 Maes y Deri, Tal-y-bont
**Ci Neu Ast** (nid yn gi hela)
1. Dafydd Mason, Graig Fach, Bontgoch
2. Abby Jones, Blaenddôl, Tre'r Ddôl
3. Steven Thomas, 4 Tyrrel Place, Tal-y-bont
**Ci neu Ast ddefaid**
2. Teleri Morgan, Pwllglas
3. Max Tarrida, Llancynfelyn



**Ci neu ast dan 12 modfedd**
3. Paul Watkin, Heulfor, Tal-y-bont
**Dangosydd Gorau dan 12oed**
3. Nick Bryan, Minafon, Tal-y-bont
**Ci Anwes yn y cyflwr gorau**
1. Amanda Charlesworth, Dôl Pistyll, Tal-y-bont
**Mwngrel neu croesfrid**
1. Connie Watkin, Heulfor
3. Nick Bryan
**Ci a'i gynffon yn siglo**
1. Steve Clarke, Gelli Aur, Tal-y-bont
2. Kim Barnett, 4 Tyrrel Place, Tal-y-bont

**DOFEDNOD**
**Ceiliog neu Iar Groes**
1, 2 a 3. Becca Fflur Fleming, 12 Dôlpistyll, Tal-y-bont
**Plant dan 15oed**
1. Bedwyr Siencyn, Tanrallt
2. a 3. Becca Fflur
**Meilart Ysgafn**
2. Lowri Fleming, 12 Dôlpistyll, Tal-y-bont
**Dosbarth Plant** – Ieir: Bedwyr Siencyn
**Tlws Llwynglas**: Becca Fflur
**Dosbarth Plant** – Hwyaid: Cylch Meithrin Tal-y-bont

**Anifail Anwes**
Heledd Davies, Gwynfryn

**ENILLWYR CWPANAU CEFFYLAU**
**Cob Adran D:** David Evans, Clogfryn, Aberaeron
**Cob Adran C:** Huw Jenkins, Pennant, Llanon
**Adran A:** Caseg ag Ebol: E a J Davies; Cwmsychbant
**Merlen Dwy Flwydd:** Ieuan Jenkins, Rhydcymerau
**Merlen Adran B:** Manon Turner, Llangeitho
**Merlota:** Megan Williams, Borth
**Helfarch:** Iola Evans, Capel Bangor
**Hurfarch:** Fred Williams, Capel Bangor
**Ceffylau Lliw:** Pippa Griffiths, Ffair Rhos
**Mynydd a Gweundur:** Dawn Russell, Cei Newydd
**Marchogaeth y Plant:** Lois Medi, Llandre
**Ceffylau Gwedd:** Elfed a Louise Davies, Castell Newydd Emlyn
**Stalwyn D:** Davies, Aberffrwd
**Pencapwr y Ceffylau:** D Evans, Aberaeron

**Biff:** Dion a Llyr Davies, Trefenter

**Defaid Duon:** D & R Rowlands, Gaerwen, Sir Fôn
**Torddu:** Myfyr Jones, Tyn y groes, Conwy
**Torwen**: Gethin Morgan, Cwmann
**Penfrith:** Hywel Watkins, Llanfihangel
**Brid Mynydd Arall:** R Howatson, Dinbych
**Jacob:** M Wakelin, Llanilar
**Charollais**: D S & S L Brigginshaw, Felin gwm, Caerfyrddin
**Suffolk:** D Morgan, Llanfihangel-y-Creuddyn
**Texel:** G, D & N Williams, Penuwch
**Balwen:** G Morgan, Cwmann
**Bridiau Pur Eraill:** G, D & N Williams, Penuwch
**Beltex:** D Owen, Rowen, Conwy
**Zwartbles:** Cain Anharad Owen, Llanerchymedd, Sir Fôn
**Ŵyn Tew:** D Evans, Capel Dewi

**PENCAMPWR Y DEFAID**
D Morgan, Llanfihangel-y-Creuddyn
**Cilwobr**: Teulu Tyngraig

**CNEIFIO**
**Agored:** Gwion Evans, Llansannan
**C.Ff.I.:** Llyr James, Penrhyncoch
**Dan 18:** William Jones, Abergynolwyn
**Gwellaif:** G Jones, Bala

**CŴN**
B Matthias, Aberaeron
Ffion Roberts, Aberystwyth

**DOFEDNOD**
**Ieir:** D Picton Jones, Llanwnen
**Hwyaid:** Mrs C Cookson, Drenewydd

**RASUS CŴN**

**Dosbarth 1**
**Ras i gwn defaid**
1af. Antony Wallis - Jessy
2il Dewi Jenkins - Moss
3ydd. Steffan Rattray - Seren

**Dosbarth 2**
**Ras i Ddaeargwn**
1af Nick Strong - Mali
2il Bedwyr Siencyn - Pero
3ydd Dafydd Southgate - Max

**Dosbarth 3**
**Ras i Filgwn neu Chwn potsiwr**
1af Llyr James - Sunny
2il Zoe Jones - Dwley
3ydd Sam Macmahn - Zac

**Dosbarth 4**
**Ras i Filgwn bach**
1af Sandra Gorman - Mari
2il Cristian Edwards - Lilly
3ydd Cristian Edwards - Lottie

**Dosbarth 5**
**Ras i unrhyw frid arall coes byr**
1af Julie Swanson - Molly
2il Aled Jenkins - Maddie
3ydd . Anna Sistern - Flash

**Dosbarth 6**
**Ras i unrhyw frid arall coes hir**
1af Abigail Jones - Nala
2il Chris Fry - Star
3ydd Andy Bakewell - Sam

**Dosbarth 7**
**Ras i Ddisgyblion ysgol Gynradd**
1af Becca Fflur - Maddie
2il Ynyr Siencyn - Pero
3ydd Tomos James - Tamed

**Dosbath 8**
**Ras i ddisgyblion ysgol Uwchradd**
1af Steffan Rattray - Seren
2il Bedwyr Siencyn - Pero
3ydd Hedd Dafydd - Bel

**Dosbarth 9**
**Ras i ferched a'u cwn**
1af Abigail Jones - Nala
2il Jacinta Macdermont - Leo
3ydd Charlotte Gjerlov - Sam

**Dosbarth 10**
**Ras i ddynion a'u cwn**
1af Dewi Jenkins - Boost
2il Dafydd Southgate - Max
3ydd Christian Edwards - Lilly

**Ras olaf y diwrnod**
Annie - May - Boost


*Emyr Davies, Llety-ifan-hen, Bontgoch, Llywydd y dydd yn beirniadu cystadleuaeth cneifio'r C.Ff.I.*

## Treialon Cwn Defaid Tal-y-bont

Cynhaliwyd ein treialon eleni ar ddydd Mercher Awst 6fed yn Llety Ifan Hen. Roedd y dydd i fod i ddechrau am 8 o'r gloch y bore ond roedd niwl trwchus yn gorchuddio'r cae am y tri chwarter awr cyntaf ac am y tri chwarter awr nesaf roedd yn chwythu yn groes i'r cae ar adegau ac yn ei gwneud yn anodd i'r cystadleuydd weld ei gi a'r defaid. Ond yna fe gliriodd a chafwyd diwrnod arbennig gyda chystadlu cyson hyd wedi 9 o'r gloch yr hwyr. Unwaith eto eleni roedd cynyrchiolaeth o'r cyfandir, yn bennaf o'r Eidal.

Wedi diwrnod hir diolchodd y cadeirydd, Elgan Evans Tynant i deulu Llety Ifan Hen am y cyfleusterau i gynnal y treialon ac i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith yn stiwardio yn ystod y dydd. Yna cyflwynodd y beirniad, Emyr Lloyd o Lanrhystyd, a diolch iddo yntau a'i wyres, ei ysgrifennyddes, am eu gwaith yn ystod diwrnod hir.

Wedi cyflwyo'r llywydd am y flwyddyn, Emyr Davies Llety Ifan Hen a diolch iddo am ei rodd hael gwahoddodd ef i gyflwyno'r gwobrau. Prif enillydd y dydd oedd Meirion Williams o ardal y Trallwng, gyda'i gi Dan, a gipiodd nifer o wobrwyon yn cynnwys y brif wobr sef y cawg rhosynod er côf am Richard Edwards Lletyllwyd am y rhediad orau yn ystod y dydd. Enillodd Dewi Jenkins, Tyngraig nifer o wobrwyon gyda'i gi Moss, yn cynnwys yn gyntaf yn y dosbarth i aelodau Clybiau Ffermwyr Ieuanc Ceredigion. Ef hefyd enillodd y gystadleuaeth i aelodau'r pwyllgor a ffrindiau a gynhaliwyd y noson gynt ond gyda Nel y tro yma.

Fel arfer cynhaliwd cystadleuthau cneifio yn yr hwyr gyda'r llywydd yn beirniadu. Y canlyniadau oedd
Dosbarth agored: 1af Rhydian Evans, Tynant; ail Elgan Evans, Tynant; 3ydd Enoc Jenkins, Tyngraig.
Dosbarth i aelodau C. Ff. I. 1af Owain James, Penbanc; ail Llyr James, Penbanc, 3ydd Dewi Jenkins, Tyngraig.
Dosbarth i aelodau C. Ff. I. dan 21 oed: 1af Llyr James; ail Dewi Jenkins; 3ydd Gwion Evans, Tanllan.

# Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Papur Pawb

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol Cymdeithas Papur Pawb ar nos Iau 26 Mehefin 2014.

Adroddwyd gan swyddogion y Gymdeithas bod deugeinfaid blwyddyn Papur Pawb (2013/4) wedi bod yn un lwyddiannus iawn, yn olygyddol ac yn ariannol.

Yn ystod y cyfarfod cafwyd trafodaeth am natur cynnwys golygyddol y papur a chytunwyd y byddai'n well datblygu stoc o erthyglau lleol petai dim digon o ddeunydd ar gael ar gyfer rhifyn, yn hytrach na defnyddio 'fillers' cyffredinol a dderbyniwyd gan sefydliadau cenedlaethol.

Ac mewn byd sy'n gynyddol droi at y cyfryngau cymdeithasol cytunwyd y byddai'r Golygydd Cyffredinol, Gwyn Jenkins, yn gwahodd nifer o unigolion i roi arweiniad a chyngor ar sut y gallai Papur Pawb fanteisio ar y cyfryngau hyn.

**Ethol Swyddogion**
Roedd dau o'r Swyddogion yn dod at ddiwedd eu tymhorau. Roedd y Cadeirydd, Arthur Dafis, wedi gwasanaethu am ddwy flynedd, ac fe ddiolchwyd iddo am ei waith. Yn yr un modd, roedd yr Ysgrifennydd, Geraint Pugh, hefyd am roi'r gorau wedi dwy flynedd yn y swydd, gan ei fod ef a'r teulu bellach wedi symud i fyw i Aberystwyth. Diolchwyd i Geraint a'i wraig, Siân am eu cyfraniad i'r Papur fel golygyddion misol ac ysgrifenyddion dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn sgil y newidiadau uchod, etholwyd y canlynol i fod yn Swyddogion Papur Pawb ar gyfer 2014/15.

Cadeirydd, Helen Jones; Is-gadeirydd, Gerwyn Jones; Ysgrifennydd, Rhian Evans; Trysorydd, Rebecca Williams; Golygydd Cyffredinol, Gwyn Jenkins.

**Papur Sain**
Adroddwyd wrth y cyfarfod taw Eileen Williams a Beti Jenkins fydd yn ymgymryd â'r gwaith o recordio'r Papur Sain ar ran Merched y Wawr o fis Medi ymlaen, a diolchwyd i Falyri Jenkins a Megan Mai am eu cyfraniad dros y misoedd diwethaf.

**Parth .cymru**
Trafodwyd y posibilrwydd o brynu parth .cymru ar gyfer Papur Pawb. Cytunwyd i fwrw ymlaen a holi Iolo ap Gwynn i wneud y trefniadau.

**Dathlu 40 mlynedd**
Ac yn olaf, diolchwyd i bawb fu ynghlwm â'r dathliadau diweddar i nodi pen-blwydd Papur Pawb yn 40 oed. Bu'r parti yn yr ysgol yn llwyddiant mawr, ac fe gyhoeddwyd atodiad deniadol yn y Papur gan ddefnyddio nifer o luniau o archif Papur Pawb a sganiwyd gan Lois Jones.

# Arddangosfa'r Haf yn Tonnau Pwllheli

Un o'r rhai sy'n cymryd rhan yn Arddangosfa'r Haf yn Oriel Tonnau Pwllheli yw Ffion Gwyn, sydd bellach yn byw yng Nghricieth, Eifionydd.



Mae Ffion yn ferch i Brian a Beti Wyn Davies, Rhos, Taliesin. Dilynnodd gwrs gradd B.A mewn Serameg ym Mhrifysgol Caerdydd, a hi bellach yw Darlithwraig Gelf Coleg Meirion Dwyfor ym Mhwllheli.

Mae'n ymddiddori mewn mynydda a cherdded, ac o brydferthwch yr ardal o'i chwmpas y caiff ei hysbrydoliaeth .Defnyddia hefyd themau sy'n ymwneud a'i haelwyd a'i theulu i liwio naws y gwaith creadigol. Mae'r gyfres o waith sydd yn yr Arddangosfa yn Tonnau yn gyfuniad o ddarnau brodwaith peiriant a chlytwaith sydd wedi ei seilio ar ddarnau o farddoniaeth a rhigymau, yn ogystal a pheintiadau acrylig o deithiau ar droed ar hyd traethau Llyn. Dewiswyd un darn o'i gwaith ar gyfer Tlws y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Gar eleni.

Yn cyd arddangos a Ffion y mae Josie Russell, merch ifanc o Benygroes, Dyffryn Nantlle, sy'n prysur wneud enw iddi 'i hun fel arlunydd tecstiliau, Jordan Lee, o Benrhos ger Pwllheli, sy'n trosglwyddo ffotograffau o Ben Llyn ar ddarnau o froc mor, a thafarnwraig o Bwllheli, Elisabeth Stevenson sy'n defnyddio paent acrylig i ddarlunio adeiladau diddorol Pwllheli .

Y mae hon yn Arddangosfa arbennig, gyda phedwar arlunydd yn cynnig rhywbeth gwahanol ac unigryw.

Bydd yn Arddangosfa yn dechrau ar Orffennaf 5ed ac yn parhau trwy'r Haf, felly beth am ddal y tren i Bwllheli a threulio diwrnod difyr yn y dref, gan gofio galw i mewn yn Tonnau wrth gwrs !

Bydd y gwaith hefyd ar ein safle we-www.tonnau.com

# Cylch Meithrin Tal-y-bont

**Gwibdaith**

Ar ddydd Mercher 16 Gorffennaf aeth criw Cylch Meithrin Tal-y-bont i ymweld â Fferm Ffantasi, ger Llanrhystud fel ei gwibdaith diwedd tymor. Gwnaeth y plant (a'r staff!) fwynhau mynd o amgylch y parc antur a chwrdd ag amryw o anifeiliad megis defaid, gwartheg, hwyaid a llawer mwy! Bu'r ardal chwarae dan do yn boblogaidd iawn!

**Anwen yn gadael**

Yn dilyn 16 mlynedd o wasanaeth gyda Chylch Meithrin Tal-y-bont, mae Anwen wedi ein gadael ar ddiwedd tymor yr haf. Rydym yn bwriadu cynnal parti iddi yn ddiweddarach yn y mis i ddiolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr dros y blynyddoedd. Os hoffech gyfrannu tuag at ei rhodd, medrwch ei adael naill ai yn y Cylch Meithrin neu yn Ysgol Tal-y-bont. Rwy'n siŵr ein bod i gyd am ddiolch yn fawr i Anwen am ei gofal dros y plant dros y blynyddoedd a dymuno pob lwc iddi yn y dyfodol.

**Gwahoddiad**


Mae'r Cylch yn trefnu 'Tê Parti' ar brynhawn ddydd Mercher, 8fed o Hydref am 3.30yp yn y Tŷ Sbri. Croeso cynnes i bawb ymuno am brynhawn bach hyfryd!

**Helo a ffarwel**

Mae yna ddiwedd cyfnod a dechreuad un arall wedi bod yn y Cylch wrth inni ffarwelio â sawl un bach wrth iddynt droedio ar rheng nesaf eu gyrfa addysgiadol. Dymunwn pob lwc i Kelsey, Benji, Cian, Steffan, Summer, Osian a Bleddyn yn Ysgol Tal-y-bont ac Amber yn Ysgol Llancynfelyn.

Estynnwn groeso mawr i Ariana, Hari, Joel a Swyn sydd newydd gychwyn yn y Cylch. Mwynhewch yr hwyl a'r sbri!

*Non Jones*






pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 12

# Teyrnged

## William Ralph Davies

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Ralph Davies, Llanerch Dyfi, Tre'rddol, brawd annwyl i Jano a'r diweddar Hilda a Rosemary, a brawd yng nghyfraith i Gwyndaf, hefyd yn ewythr i Karen, Kay, Julie a Rhian.

Ganwyd Ralffi, fel oedd ei gyfeillion yn ei adnabod, bedwar ugain mlynedd yn ôl a bu ei flynyddoedd cyntaf yn helbulus iawn. Llosgwyd tŷ'r teulu bach i'r llawr a bu ei fam farw pan oedd y plant yn ifanc iawn, felly bu raid i'r plant gael eu gwahanu a'u didoli i wahanol gartrefi. Cymerodd Miss Jane Beechy, Ralph dan ei hadain a bu'r ddau yn byw yn gytûn yn Llanerch Dyfi nes marw Anti Jane yn wyth deg wyth oed.

Mynychodd Ralph ysgol gynradd Llangynfelyn cyn ennill ei le yn Ysgol Ramadeg Ardwyn lle serennodd mewn chwaraeon, hanes a daearyddiaeth. Wedi gadael ysgol yn bymtheg oed, bu'n gweithio gydag amryw o gwmnïoedd bach lleol ac yr oedd yn hoffi adrodd am yr amser y bu'n gweithio gyda chwmni lleol a oedd yn cynhyrchu 'pop'. Ar ôl gwasanaethu yn y fyddin am ddwy flynedd, treuliodd flynyddoedd lawer yn gweithio i gwmnïoedd adeiladu mawr fel Isaac Jones o Lanelli a chwmnïoedd eraill. Bu am flynyddoedd yn gweithio yn Adran Cynnal a Chadw y Coleg yn Aberystwyth. Er iddo ymddeol dros bymtheg mlynedd yn ôl, daeth llu o'i gyn gydweithwyr i'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Dewi Sant ac yr oedd hyn yn adlewyrchu pa mor uchel ei barch ydoedd.

Yr oedd Ralph yn gwmnïwr ardderchog ac yr oedd yn diddori mewn llawer maes – paffio, opera, garddio, pysgota a daearyddiaeth. Mae cof gennyf amdano'n sylwebu yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, ar ornest a fu rhwng Marciano a Joe Walcott yn America, a'i ffrind John Macdonald yn rhoddi'r crynodeb rhwng pob rownd.

Yr oedd yn bysgotwr llwyddiannus iawn ond ni chredaf y byddai Moc Morgan yn cymeradwyo ei ddulliau. Hoffai drafod a chymharu cantorion opera fel Gili, Lanzia Bürling, Carreras, Domingo, Gobbi a Parvarotti ac yn rhyfedd iawn bu farw un o'i ffefrynnau Carlo Bergonzi yn yr un wythnos a Ralffi.

Bu ei iechyd yn fregus ym mlynyddoedd diwethaf ei oes ond bu Linda Hicks a John Southgate a Gwyndaf yn gymorth mawr iddo. Fe gofir am Ralph yn eu siwrnai drwy bywyd am ei gariad tuag at ei Anti Jane, ei gariad am ei wlad Cymru, fel gweithiwr arbennig, am ei hiwmor ac am ei galon gynnes.

Yr wyf yn ymfalchïo yn y ffaith fy mod wedi bod yn un o ffrindiau agosaf Ralph ac mi fyddaf yn cofio amdano tra byddaf byw.

*Reg Jones*

# Eglwys St. Pedr, Elerch

Mae Eglwys Elerch, Bont-goch, wedi ymuno â Llwybr Treftadaeth Llefydd Llonydd, sy'n cysylltu 15 o safleoedd hanesyddol a chrefyddol yng ngogledd Ceredigion. Ceir manylion pellach ar wefan www.peaceful-places.com

Yn sgil hynny, mae'r eglwys bellach yn agored i'r cyhoedd rhwng 10-00 y bore a 5-00 y prynhawn. Dewch am dro i ymweld ag un o eglwysi mwyaf hanesyddol yr ardal.

Cafwyd noson ragorol ar ddiwedd Mehefin adeg ein Caws, Gwin a Chân blynyddol. Roedd yr artistiaid sef Meibion y Mynydd, Ensemble Taliesin, ac yn arbennig talentau Ysgol Gymunedol Tal-y-bont yn ardderchog. Diolch iddynt un ac oll am noson wych, a diolch arbennig i'r Pennaeth Mr Hefin Jones, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Siôn Pennant a'r gyfeilyddes, Mrs Neli Jones, am eu cydweithrediad parod iawn. Diolch o galon hefyd i Mrs Gwenda Davies, Pencader (gynt o Gwm-yglo), llywydd y noson, am rodd hael iawn tuag at yr achos. Diolch hefyd i gwmniau DAWNUS CONSTRUCTION a DWR CYMRU am noddi'r cyngerdd, ac i 'r Parchg Andrew Loat, offeriad â gofal dros Eglwys Elerch, am arwain. Roedd hi'n braf gweld yr Eglwys yn orlawn eto eleni.

# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Dyma adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfodydd yr Haf.

**Cyfarfod Blynyddol**

Etholwyd Bleddyn Huws yn Gadeirydd newydd y Cyngor, a David Evans yn is-Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2014/15. Hefyd, fe enwebwyd Gerwyn Jones yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor y Cylch Meithrin, a Rhian Evans yn gynrychiolydd y Cyngor ar Bwyllgor Ardal Ceredigion Un Llais Cymru. Rhoddodd Enoc Jenkins, y Cadeirydd ymadawol, ddiolch i'r aelodau a'r ddau Glerc am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn, a dymunodd y gorau i'r Cadeirydd newydd, Bleddyn Huws.

**Datganiad Ariannol y Cyngor 2013/14**

Derbyniwyd datganiad ariannol 2013/14 y Cyngor. Estynnwyd diolch i Mr Ieuan Morgan am ei waith fel Archwiliwr Mewnol Annibynnol i'r Cyngor.

**Cymhorthdal Sul y Cofio: Canmlwyddiant Cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf**

Cytunodd y Cyngor i roi cymhorthdal i Eglwys Dewi Sant, Tal-y-bont ar gyfer gwasanaeth arbennig Sul y Cofio 2014, sef canmlwyddiant cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y cymhorthdal yn mynd tuag at gostau printio llyfryn cofrodd y Rhyfel Byd Cyntaf.

**Poteli Gwydr yn y Fynwent**

Adroddwyd i'r Cyngor fod poteli gwydr yn cael eu defnyddio yn y fynwent i ddal blodau, a bod hyn wedi creu problemau iechyd a diogelwch i'r rheini oedd yn torri'r borfa o amgylch y cerrig beddi. Cytunwyd i Is-bwyllgor y Fynwent (is-adran o'r Cyngor Cymuned) ymchwilio ymhellach i'r mater.

**Tyllau yn y ffordd**

Adroddodd y Cynghorydd Enoc Jenkins fod nifer o dyllau mawrion yn y ffordd, yn enwedig rhwng Cwm-slaid a Penysarn. Nododd y Cynghorydd Nest Jenkins fod nifer o dyllau yn ffordd Cwm Ceulan yn ogystal. Cytunwyd i gysylltu â'r Cyngor Sir i fynd i'r afael â'r broblem.

**Diffibrilwyr**

Gwahoddwyd Glan Davies i gyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor i drafod y posibilrwydd o wneud cais i gael diffibrilwyr i Dal-y-bont. Cytunwyd i ymchwilio ymhellach i'r opsiynau, ond i drefnu hyfforddiant triniaeth adfywio (*CPR*) cyhoeddus yn y cyfamser.

**Plac Mainc Goffa**

Cytunwyd i fynd ati i drefnu plac ar gyfer meinciau coffa Dr Iestyn a Mrs Auriol Watkin. Diolch i gymynrodd hael gan Dr Watkin yn ei ewyllys, roedd hi'n bosib codi meinciau cyhoeddus newydd yn Nhal-y-bont. Cytunwyd i'w osod ar y fainc agosaf at safle bws y patsyn glas.



# Cipio'r cwpan am farnu moch

Llongyfarchiadau i Bedwyr Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont a ddaeth yn gyntaf yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanelwedd eleni am farnu moch Cymreig. Tipyn o gamp gan mai cystadleuateth i blant dan 16 oed oedd hi.

pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 13

# Ysgol Tal-y-bont

Croeso nol i bawb a chroeso arbennig i'r plant newydd. Gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith.

Hoffwn longyfarch pawb ar eu llwyddiant yn y sioeau a'r eisteddfodau lleol a chenedlaethol yn ystod yr haf. Hoffwn ddiolch hefyd i'r rhieni a staff sydd wedi bod yn tacluso'r ysgol dros y gwyliau.





**Tripiau**


Eleni fe aeth plant Cyfnod Allweddol 2 i Dan yr Ogof a'r Cyfnod Sylfaen i Quackers. Mae'n amlwg o'r lluniau fod pawb wrth eu bodd. Bu plant Blwyddyn 5 a 6 hefyd yng Ngwersyll yr Urdd Galn-llyn. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rieni am noddi'r diwgyddiadau hyn.



# Priodasau



Dyma Caryl (merch Alun a Ceris Williams, Penrhos) a Richard Thomas ar eu diwrnod priodas ar y 16 Awst yn Eglwys Llangfihanel Genair Glyn, Llandre. Treuliwyd y mis mêl ar fordaith Norwyeg. Mae'r ddau wedi ymgartrefi yn Bryn Bugail, Nant yr Arian.



Llongfarchiadau i Terry Byrne, merch Nicky a Sean Byrne a Stewart Jones, mab Angela Jones o Dre'r Ddol a briodwyd yn Eglwys Tal-y-bont ym mis Gorffennaf. Cafwyd y wledd yn Nhyglyn Aeron ac aeth y ddau ar eu mis mêl i'r Eidal.



Llongyfarchiadau i James Clement a Kat Birch ar eu priodas yn ddiweddar. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Nhre'r Ddôl ac yn rhedeg cwmni Stoves and Stuff, Aberystwyth. Pob lwc i chi.

# Cofnodion Llyfrau Log Ysgolion Borth, Tal-y-Bont a Llangynfelyn am Y Rhyfel Byd Cyntaf

Gyda'r holl sylw diweddar i ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, teimlais ryw chwilfrydedd i weld os oedd unrhyw gyfeiriad amdano yn llyfrau log y tair ysgol yr wyf yn Bennaeth arnynt: Ysgol Tal-y-bont, Ysgol Llangynfelyn ac Ysgol Borth (Craig yr Wylfa erbyn hyn). Yn anffodus, nid yw llyfrau log Ysgol Eglwys y Borth ar gael, ac mae'n bosibl y byddai gwybodaeth werthfawr ar gael yn rheiny.

Mae cofebion gweladwy ar gael mewn mannau cyhoeddus yn y tair ardal wrth gwrs, ond doedd gen i fawr o syniad beth fyddai cynnwys y llyfrau na beth fyddai'r cofnodion yn dangos i ni.

Dechreuais drwy edrych ar lyfr log Ysgol Tal-y-bont a chael cryn drafferth i weld unrhyw wybodaeth am y rhyfel. Yn wir, yr unig sôn am yr Almaen yn ystod y blynyddoedd cyntaf yw cyfeiriad at y plant yn dioddef o "*German measles*" ar 29.10.15! Y tywydd a diffyg presenoldeb y plant oedd y prif faterion; absenoldeb oherwydd anhwylderau amrywiol megis brech yr ieir, niwmonia, ffliw, difftheria, y dwymyn goch (scarlet fever), clefyd melyn (jaundice), peritonitis a tharwden (ringworm) ym mhen un o'r plant.

Y cyfeiriad cyntaf at y rhyfel yw yn 1916 pan ymwelodd y Bon. D. Thomas (Arolygydd ei Mawrhydi) â'r ysgol i annog yr athrawon a'r plant i ffurfio Cymdeithas Cynilo'r Rhyfel (*War Savings Association*). Ar ôl hynny, ac am y ddwy flynedd nesaf, yr unig sôn am y rhyfel yw ymweliadau pellach ganddo, pan fyddai'n pwysleisio pwysigrwydd cefnogi'r syniad o gynilo a'r Benthyciad Rhyfel (*War Loan*). Byddai trigolion y pentref yn mynychu'r cyfarfodydd hynny.

Tebyg iawn yw'r cofnodion am flynyddoedd cyntaf y rhyfel yn llyfr log Ysgol Llangynfelyn hefyd gyda llawer o sôn am afiechydon a'r tywydd. O ddiwedd Tachwedd 1915 hyd at 1919 ceir sawl cofnod o'r ysgol yn casglu arian at wahanol elusennau megis y Groes Goch a'r Gymdeithas Morwyr Prydeinig a Thramor, a chasglu at y Tystysgrifau Cynilo. Bu D. Thomas yma hefyd, ynghyd â D.C. Roberts a Barclay Jenkins, Aberystwyth yn areithio ar bwysigrwydd cynilo. Rhannwyd yr ardal i bedwar adran i hyrwyddo'r cynilo hyn. Yn ddiddorol, ceir nodyn ym mis Gorffennaf 1917, fod 17 o blant yr ysgol wedi codi 3-13-7 tuag at y "*Russian Red Cross*" a'u bod wedi danfon 51 wy i ysbyty'r Groes Goch. Mae'n debyg fod dwy o'r rheiny yn Aberystwyth ac un ym Machynlleth ar y pryd.

Ar ddiwedd mis Tachwedd, 1915, dechreuwn weld effaith y rhyfel ar yr ardal leol. Dyma pryd y cafodd J. Knighton Jones, athro yn yr ysgol, ganiatâd i fynd am archwiliad meddygol ar gyfer ymuno â'r fyddin. Erbyn Ionawr 29ain, 1916 yr oedd wedi 'listio'. Yna, ar ddiwedd 1916, ceir nodyn fod y Pennaeth ar y pryd, James Jones, wedi gorfod mynd i Ysbyty Filwrol Whitworth ym Manceinion i nôl ei fab a oedd wedi cael ei ryddhau o'r fyddin. Yn 1917, cafodd athro arall, dyn o'r enw David Hughes ei alw i wasanaethu ac ym mis Mawrth yr un flwyddyn aeth athro arall o'r enw Mr Jenkins i weithio mewn ffatri arfau.

Yn hollol wahanol i'r ddwy ysgol arall, ceir cyfeiriad cyflym iawn am y rhyfel yn llyfr log Ysgol Borth. Ar Dachwedd yr 20fed, 1914, ychydig fisoedd yn unig wedi dechrau'r rhyfela, ceir sôn am gyn-ddisgyblion yn listio – *Jno. Edward Jones (S. Wales Borderers), Rd David Hughes (Welsh Reg. Territorial Force), Jno. Wm Davies, (Naval Reserves) a Thos. Owen Jones (Naval Reserves).* Yna ym mis Rhagfyr daeth criw o ffoaduriaid o Wlad Belg i'r ysgol. Gwlad Belg gafodd ei heffeithio gyntaf yn 1914 wrth gwrs, ac fe wnaeth rai miloedd ffoi o'r wlad, gyda nifer yn adleoli i Benygarn, Bow Street. Dechreuodd tri phlentyn o Wlad Belg yr ysgol ar Ebrill y 12fed ond erbyn y 23ain roedd yn rhaid iddynt adael a mynd i Ysgol Rhydypennau gan mai cymuned Penygarn oedd yn eu cefnogi.

Ceir cyfeiriad at anogaeth i'r plant ffurfio Cymdeithas Cynilo'r Rhyfel gan Bon. Jenkin Jones, y Cyfarwyddwr Addysg, ond mae cofnodion llawer mwy diddorol yma hefyd. Dros y blynyddoedd nodwyd enwau sawl cyn-ddisgybl a fu'n ymweld â'r ysgol ac mae'n siŵr bod gweld y milwyr ifanc yn eu lifrai a chlywed hanesion am wledydd pell a'r brwydro wedi cael tipyn o effaith ar y plant. Yn aml, ceir rhyw bwt o wybodaeth gyda'r ymweliadau hyn sy'n ychwanegu at werth y cofnodion. Er enghraifft:

*20/1/15 – Private W. Bowyer of the Cheshire Light Infantry. He has recently returned from India and is proceeding to the 'front'.*

*10/02/15 – Two old pupils of this school called in – they have joined Kitchener's Army – to bid goodbye before taking up their duties as Drivers in the artillery : Thomas E. Evans + Wm Dd. Jones.*

*01/03/16 – Two old boys who are home on leave from active service (one from the Dardenelles) called and remained for the greater part of the afternoon*

*06/07/17 – Three seamen, formerly pupils at this school + whose ships had recently been torpedoed by UBoats visited the school today.*

*21/09/17 – Fred. Mc. Causland, an old scholar of this school and now a Cpt. in the 6th Warwickshire visited the school this morning. Thirteen months ago he was taken prisoner after the battle of ?+ sent to Westphalia. After four attempts he succeeded in escaping – walked during the nights for 120 miles + in 3 weeks + 2 days, got over the frontier into Holland.*

*11/10/17 – Richard R. Davies R.E. an old pupil visited the school today. He was back on leave from France. Also Jennie Davies, who is a V a D at Oswestry called in here. (Voluntary Aid Detachment)*

*24/10/17 – Iorwerth H. Williams (HMS Swift) T(?) O Jones (HMS Drake) which ship was torpedoed on the 17th inst. and Alun F. Evans M.G.C., old pupils of this school, now home on leave visited the school today.*

*17/02/19 – Two old pupils – David Jones Morgan and David Llewelyn Jones – paid a visit and remained during the morning. The former has served with the army in Egypt and Palestine + the latter in Serbia, Macedonia + Bulgaria.*

*10/04/19 – Capt. Gwilym Idris Jones – an old pupil – visited the school today on his return from Salonika and the East.*

Ceir nodyn diddorol iawn i ddynodi gweithgarwch Gŵyl Ddewi 1916, lle byddid yn codi'r "Ddraig Goch" am 9yb a byddai'r plant yn cael eu hannerch ar wladgarwch, Dewi Sant ac Owain Glyndŵr. Yna byddai'r plant yn canu ac adrodd darnau addas, a nodwedd arbennig y diwrnod hwn oedd i'r plant ddarllen barddoniaeth a gyfansoddwyd ganddynt am Dewi Sant. Gosodwyd "*Roll of Honour*" newydd yn yr ysgol yr un pryd.

Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, cawn syniad o effaith y rhyfel ar staff yr ysgol. Dyma nodyn gan J. Morgan, y Pennaeth ar y pryd:

*11/11/16 – I was absent from school this morning from 9am to 10.30am – my nephews were leaving this country on active service in Flanders, and I went to see them off.*

Ond yn fwy amlwg fyth efallai, ar Orffennaf 5ed, 1917 roedd y Pennaeth yn absennol o'r ysgol am ei fod wedi teithio i Lanbedr Pont Steffan i gael archwiliad meddygol gan Fwrdd Meddygol y Gwasanaeth Milwrol Cenedlaethol (*Military National Service*). Mae'n debyg ei fod yn hapus gyda'r canlyniad, sef Gradd 2. Yna, ar Orffennaf 19, derbyniodd wybodaeth ei fod am deithio i Aberhonddu drannoeth i ymuno â'r fyddin! Ond nid yw'n ymddangos ei fod wedi digwydd gan fod llawysgrifen y llyfr log wedi aros yr un peth y mis Medi canlynol.

Ar Chwefror 15fed, 1918, cafodd pob ysgol yn y sir eu cau fel gwobr am godi £250.000 i'r Gronfa Gynilo ac er mwyn dangos gwerthfawrogiad am waith gwych yr athrawon. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno (Gorffennaf 10), caewyd yr ysgolion eto, pan aeth y plant a'r athrawon i Aberystwyth i weld tanc o'r enw "Julian" yn gorymdeithio drwy'r dre ac i brynu Tystysgrifau Cynilo'r Rhyfel. Ceir cyfeiriad yn y tri llyfr log am yr ymweliad ynghyd â'r sylw hwn yn un Ysgol Borth, "*The amount invested in War savings from this association in the Tank this week is £1182.10.0*" – tipyn o swm.

Nid oes unrhyw gyfeiriad at ddiwedd y rhyfel yn y llyfrau log am y rheswm syml nad oedd un ohonynt ar agor ar y pryd. Oherwydd epidemig o'r ffliw, rhaid oedd cau pob ysgol ar Hydref 31ain, 1918, a hynny ar unwaith. Yn wir, bu'r ysgolion ar gau tan ddiwedd y flwyddyn, cyfnod o dros naw wythnos.

Mae'r cofnodion ar ôl diwedd y rhyfela yr un mor ddiddorol. Ar Ionawr 17eg 1919, gosodwyd "*Roll of Honour*" o gyn-ddisgyblion oedd wedi gweld brwydro yn Ysgol Borth. Roedd yn rhoddedig gan Bon. R. E. Jones, Cambrian Terrace, Borth. Roedd ef yn berson adnabyddus iawn yn yr ardal yn y cyfnod a gallai hawlio MA ac OBE ar ôl ei enw. Roedd hefyd yn Ynad Heddwch.

Ym mis Ebrill 1919, ceir cyfeiriad fod "*Memorial Tablet*" wedi ei osod yn Ysgol Llangynfelyn a bod llawer wedi ymgynnull i weld Miss Gwladys Jones, Gwynfryn, a'i chwaer Miss Audrey yn ei dadorchuddio. Dr James o'r Borth oedd cadeirydd y cyfarfod. Mae'r gofeb yma'n dal i fod ar wal yr ysgol.

Ym mis Gorffennaf 1919, rhoddwyd hanner diwrnod o wyliau i ysgolion y sir fel rhan o ddiwrnod i ddathlu heddwch ar Orffennaf 19. Yn ôl cyfarwyddyd yr Awdurdod Addysg roedd bore'r 18fed wedi'i neilltuo i drafod heddwch yn dilyn y rhyfel. Yn Borth, ceir cyfeiriad fod y plant wedi derbyn medalau'n coffau heddwch. Ar y 19eg, trefnwyd te parti yn Nhal-y-bont a '*sports*' a chyngerdd yn dilyn te parti yn Nhaliesin.

Ym mis Hydref 1919, cytunodd yr Awdurdod Addysg i wythnos o wyliau i goffáu'r rhyfel ac i ddathlu heddwch, ond roedd Ysgol Tal-y-bont ar gau am gyfnod o chwe wythnos ar y pryd oherwydd salwch difrifol yn yr ardal.

Ar y 18fed o Hydref 1923, ceir cofnod fod plant Ysgol Tal-y-bont wedi derbyn gwahoddiad gan Bwyllgor y Neuadd Goffa i ganu "Dyffryn Clwyd" sy'n cynnwys y geiriau "Mewn angof ni chânt fod" mewn cyfarfod i osod carreg sylfaen y neuadd newydd. Ond yn rhyfedd ddigon efallai, does dim sôn yn llyfr log Ysgol Borth am ddadorchuddio cofeb y pentref ar Awst 6, 1922.

*Hefin Jones*

parhad o tud 16

## Gŵyl Bêl-Droed Lwyddiannus

Bryn Smith noddodd y cwpan dan 12. Cyflwynwyd y medalau drwy nawdd Plas Cwmcynfelin, Paul & Wendy Kelly, Antony Foulkes, Bernard Morris, Lloyd Coaches, Abba Drains, Mike & AnnMarie Putt, John Wyn a Graham.

Cafwyd cefnogaeth werthfawr ar gyfer y Ras Lwcus gan Matthew Davies, Salon Leri a John Cuningham.

**Enillwyr y Ras Lwcus oedd:**
1af £100 Hywel Davies; 2ail £50 Dennis Roberts, Tal-y-bont; 3ydd £25 Connor Byrne, Tre'rddôl.

Dymuna'r Clwb hefyd ddiolch i'r canlynol am eu cymorth: Lyn Ebenezer, Siwan Tomos a Vicky Joseph am werthu tocynnau'r Ras Lwcus; Gwyn Jenkins am dynnu'r lluniau; Debbie Benjamin a'r merched am drefnu'r bwyd ar y maes; Anthony Southgate a Wyn Benjamin am baratoi'r maes ac i'r holl wirfoddolwyr a sicrhaodd holl lwyddiant y diwrnod.

## Y Gair Olaf



Ody, mae Facebook yn gallu bod yn felltith. Mae'r bwlio sy'n digwydd ar y rhwydwaith yn ben tost pur i rieni, rheolwyr ysgolion, a'r heddlu. Union flwyddyn yn ôl, fe arweiniodd bwlio ar Facebook at fachgen o Bort Talbot yn lladd ei hun. A dyna'r busnes gosod her wedyn. Mae'n cydio fel tân gwyllt, ac yn gallu bod yn beryg bywyd. Ymateb i her 'Neknominate' oedd y dyn ifanc o ardal Caerdydd a fu farw ar ôl yfed potel fawr o Vodka mewn munudau. A dim ond ddoe diwetha cyhuddwyd dyn o Wrecsam o ymosod ar ei wraig a'i fam yng nghyfraith ar ôl iddyn nhw fynd i gweryla wrth wneud fideo o'r 'her bwcedaid o rew' i'w rhoi ar y wefan 'gymdeithasol'!

Ond weithiau mae pethau positif, calonogol yn deillio o Facebook. Un o'r pethau hynny yw'r her i nodi, am bum diwrnod yn olynol, dri pheth cadarnhaol yn eich bywyd. Rhaid enwebu o leiaf dri ffrind bob dydd i wneud yr un peth. Yn naturiol, mae'r tri pheth dyddiol yn amrywio'n fawr o berson i berson, o'r "ffa yn yr ardd yn tyfu'n dda" i "dwi'n ddiolchgar fy mod i'n ddwyieithog". Dwi cynddrwg â neb am gwyno, felly da o beth yw unrhyw gyfrwng sy'n gwneud i fi ystyried yr holl bethau cadarnhaol yn fy mywyd, a bod yn ddiolchgar amdanyn nhw.

*Delyth Ifan*

CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE
Glanyrafon
Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT
HUWLEWISTYRES.COM
TEIARS HUW LEWIS TYRES
Rhodfa'r Parc
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221

Garej Paul Joseph
01970 822220
Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrwsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrwsio MOT

Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones
Gwasanaethau Pensaerniol
Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau
Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com
01970 832760

pp medi 14_Layout 1 09/09/2014 09:18 Page 16

# CHWARAEON



## Golff

Llongyfarchiadau i Owen Jenkins, Llangynfelyn (ail o'r chwith ) ar ennill Cwpan Paterson a Richard Jones, Tal-y-bont, (ar y dde) ar gipio Cwpan Cecil Wright mewn cystadlaethau a gynhaliwyd ar gwrs golff Borth ac Ynyslas dros yr haf.

## DECHRAU DA

Mae dau dîm pêl-droed gan Dal-y-bont yn chwarae yn nwy adran Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth y tymor hwn ac mae'r ddau wedi cael dechrau addawol iawn. Mae'r tîm cyntaf wedi ennill y ddwy gêm gyntaf, 2-1 bant ym Mhenparcau a 6-1 yn erbyn Tregaron, hefyd oddi cartref. Record yr ail dîm yn yr ail adran yw ennill un, colli un ac un gêm gyfartal. Byddwn yn rhoi sylw i'r ddau dîm yn y rhifynnau nesaf.

# Gŵyl Bêl-droed Talybont





## Gŵyl Bêl-Droed Lwyddiannus

Eleni eto cynhaliwyd Gŵyl Bêl-droed lwyddiannus ar Gae'r Odyn Galch ar 21 Mehefin, y cyfan wedi'i drefnu'n effeithiol gan Glwb Pêl-droed Ieuenctid Tal-y-bont, dan ofal medrus Ceri Jones.

Eleni roedd 49 tîm yn cystadlu, cynnydd o ddeuddeg tîm ers y llynedd. Roedd cystadlaethau ar gyfer plant dan 7, dan 9, dan 11 a dan 12.

Teigars Tal-y-bont dan hyfforddiant Mark Milverton ac Anthony Foulkes enillodd y cwpan yn y grŵp dan 9, a thîm Tal-y-bont dan 12 enillodd y cwpan yn y grŵp dan 12, dan ofal eu hyfforddwr Wyn Benjamin. Perfformiodd y ddau dîm yn wych iawn.

Sicrhawyd nawdd ar gyfer y dydd gan Aberdyfi Boat Charter, Hillsboro Residential Home, Andy Humphries a Richie Jenkins. Noddwyd y medalau dan 7 gan Statkraft Energy Ltd.

parhad tud 15




rhown ddiwedd ar wahaniaethu ar sail iechyd meddwl

amser i newid Cymru

Does dim angen i chi fod yn archarwr.
Pan fydd gan rywun rydych yn ei adnabod broblem iechyd meddwl, byddwch yn arbennig drwy fod yn ffrind.
Rhagor o wybodaeth: bit.ly/byddynffrind

amserinewidcymru.org.uk

Gofal hafal Mind Cymru Comic Relief

pp medi 14 - lluniau lliw_Layout 1 08/09/2014 19:42 Page 1

# Hwyl yr Haf

ATODIAD LLIW PAPUR PAWB MEDI 2014



*Beirniadu'r cneifio*

# Sioe Tal-y-bont



*Geraint Jenkins, Cerrigcaranau, gyda'r fuwch fuddugol yn derbyn y gwpan oddi wrth Mr G James, y beirniad*



*Ffion Hicks, Llangynfelyn, gyda'i gardd o flodau ar blât*



*Susan a Noa gyda'r defaid zwartbles*

## Diolch

Mae Papur Pawb yn ddiolchgar iawn i Sioe Tal-y-bont am y nawdd hael tuag at gynhyrchu'r atodiad lliw hwn. Diolch hefyd i'r ffotograffwyr: Ruth Jên, Ceri Jones, Iolo ap Gwynn a Fal a Gwyn Jenkins

pp medi 14 - lluniau lliw_Layout 1 08/09/2014 19:42 Page 2



*Mai Leeding gyda llond côl o gwpanau*



*Aneira yn cyflwyno basged flodau i'r llywyddion Howard Ovens a Halcyon Hynde*



*Janet Morgan gyda'r bara brith a ddaeth â'r drydedd wobr iddi*




*Heledd Davies a gafodd y drydedd wobr yn adran celf y plant gyda'i ffrind Glain*



*Beti Wyn Davies, Taliesin, yn derbyn un o'r nifer o gwpanau a enillodd am osod blodau*



*Jo Fothergill gyda'r gwpan am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran grefft*

pp medi 14 - lluniau lliw_Layout 1 08/09/2014 19:42 Page 3

# Hwnt ac Yma



*Golygfa ryfeddaf y sioe: symud pabell ar gyfer y cneifio cyflym*



*Gwynne Davies, llais y sioe*



*Timothy Evans, Llambed, a fu'n cystadlu yn yr Adran Ddefaid*



*Trefor Jones, Cwmcae, cystadleuydd brwd bob blwyddyn*



*Harri a'i ffrind*



*Ynyr a Bedwyr yn cadw trefn ar y defaid*



*Jim Regan a Jeffrey Spencer yn arddangos y gwenyn yn y babell grefftau*



*Cadw trefn ar y triawd*



*Becca Fflur a'i ffrindiau gyda 'Maisie'*



*Mike Parker, ymgeisydd seneddol Plaid Cymru, ac Elin Jones AC ar y maes*

pp medi 14 - lluniau lliw_Layout 1 08/09/2014 19:43 Page 4



*Lois yn mynd trot trot gyda Carwen ei mam*



*Enoc Jenkins, Tyngraig, a'i fab Dewi yn derbyn eu gwobrau am eu defaid mynydd buddugol gan y beirniad Trefor Roberts, Llanegryn*



*Valerie Deauville, Dôl Pistyll, a gafodd drydydd am goginio fflan sawrus*



*Ffion Nelmes, Tre'rddôl, a enillodd sawl gwobr am ei gwaith celf*



*Billy Swanson, Dôl Pistyll, gyda'r pedwar Trilliw buddugol*



*Gerald Watkin, Henllys a fu'n llwyddiannus yn yr Adran Wartheg*



*Paul Fleming yn arwain ei geffyl gwedd hardd, 'Spot'*



*Helen Jones gyda'i threfniant buddugol*



*Y rasys cŵn gyda chŵn Becca ac Ynyr ar y blaen*

pp medi 14 - lluniau lliw_Layout 1 08/09/2014 19:43 Page 5

# Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn



*Glen Griffiths Treddol:1af am Fwgan Brain Cymreig*



*Beti Wyn Davies: 1af am eitem wedi Ailgylchu*



*Geraint Lewis a'i banas buddugol*



*Becca Fflur gydag wyau buddugol ei mamgu, Meinir Fleming*



*Ffion Hicks, 1af am fisgedi*



*Llanfach yn llawn cynnyrch*



*Sian Saunders 3ydd am afalau pwdin*



*Gwen Helloco 1af am rhodd i faban*



*Richard Spencer gyda'i lysiau buddugol*

pp medi 14 - lluniau lliw_Layout 1 08/09/2014 19:43 Page 6
















pp medi 14 - lluniau lliw_Layout 1 08/09/2014 19:44 Page 7























pp medi 14 - lluniau lliw_Layout 1 08/09/2014 19:44 Page 8

# Gŵyl Pêl-droed Tal-y-bont





Tal-y-bont, enillwyr grŵp dan 12









Teigars Tal-y-bont enillwyr grŵp dan 9



Machynlleth enillwyr grŵp dan 7, noddwyr y medalau Statkraft Energy Ltd



Cyffro yn un or gemau Tal-y-bont dan 11



Tarannau Tal-y-bont A dan 7



Tarannau Tal-y-bont B dan 7



Chris Walton, Wildfowler a Ceri Jones yn tynnu'r raffl